

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Maldwyn, Ysbyty Coffa
Victoria, Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys

Dyddiad yr arolygiad: 5 a 6 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 6 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Coffa Victoria yn y Trallwng, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 5 a 6 Tachwedd 2025. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Maldwyn - sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau adsefydlu a gofal lliniarol

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 7 holiadur. Oherwydd y grŵp cleifion, roedd y nifer a gwblhaodd yr holiadur yn gyfyngedig ond rhoddwyd cyfle i bob claf siarad â'n hadolygydd profiad y claf.

Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Yn anffodus, ni dderbyniwyd unrhyw holiaduron staff wedi'u cwblhau. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion, gyda gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn briodol ac a oedd yn diwallu anghenion cleifion unigol. Roedd y cleifion i'w gweld yn drwsiadus, wedi gwisgo ac yn eistedd allan o'r gwely, lle roeddent yn gallu gwneud hynny.

Roedd amgylchedd y ward yn olau, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn cynnig lleoliad cyfforddus i gleifion arhosiad hwy dderbyn gofal ynddo. Yn arbennig, roedd yr ystafell gofal lliniarol yn cynnig preifatrwydd, mynediad uniongyrchol i ardal awyr agored ac ystafell i berthnasau wrth ymyl yr ystafell i gleifion.

Roedd ardal awyr agored bleserus a oedd o dan orchudd ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar gael i'r cleifion ei defnyddio yn ystod y misoedd cynhesach. Roedd cysylltiadau wedi'u sefydlu â'r gymuned leol drwy grŵp Cynghrair y Cyfeillion yr ysbyty, sydd wedi cefnogi datblygiadau sylweddol i'r ward a'r ysbyty ehangach.

Roedd mewnbwn therapiwtig yn cael ei ddarparu gan dîm ar y safle. Er gwaetha'r ymdrechion parhaus i sicrhau bod y cleifion yn cael lefel ystyrlon o fewnbwn therapiwtig, roedd heriau a oedd yn gysylltiedig â'r gweithlu yn atal yr ymdrechion hyn. Roedd hyn hefyd wedi arwain at lai o weithgareddau wedi'u hamserlennu ar y ward. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'r gweithlu o fewn y tîm therapïau adsefydlu yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Mynegodd y cleifion lefel uchel o foddhad â'r ward. Fodd bynnag, un thema a oedd yn ailadrodd yn yr adborth gan gleifion oedd awydd i gael rhagor o wybodaeth am eu taith gofal a'r dyddiad y rhagwelwyd y byddent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd neu'n cael sicrwydd mewn perthynas â'u taith gofal ac unrhyw gynlluniau i'w rhyddhau o'r ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid adolygu trefniadau'r gweithlu o fewn y tîm therapïau adsefydlu
- Dylid atgoffa cleifion neu roi sicrwydd iddynt yn rheolaidd mewn perthynas â'u taith gofal ac unrhyw gynlluniau i'w rhyddhau
- Rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod amseroedd asesu ac awdurdodi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu monitro.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gofal caredig a pharchus wedi'i deilwra at yr unigolyn yn cael ei roi i gleifion
- Roedd pwyslais da ar gefnogi anghenion cyfannol cleifion er mwyn helpu i'w rhyddhau'n gynnar ac yn effeithiol
- Roedd amgylchedd y ward yn darparu lle llonydd ac urddasol i gleifion oedd yn derbyn gofal diwedd oes.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr amgylchedd i'w weld yn addas at y diben ar y cyfan, gydag ystafelloedd a baeau i gleifion wedi'u trefnu a'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd y brif fynedfa i'r ward yn ddiogel ac roedd system gloch i reoli mynediad. Gwnaethom nodi rhai meysydd y dylai'r bwrdd iechyd fyfyrion arnynt mewn perthynas â diogelwch y ward ar raddfa ehangach.

Roedd rheolwyr y ward wedi gwneud ymdrechion nodedig i leihau nifer y digwyddiadau Datix agored. Roedd prosesau addas ar waith i sicrhau y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau, yr ymatebir iddynt ac, yn bwysig, y caiff y gwersi i'w dysgu eu rhaeadru i'r staff mewn modd amserol ac effeithiol.

Roedd y ward yn lân yr olwg ac yn drefnus. Nodwyd bod y trefniadau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, gyda'r staff domestig yn gweithio'n ddiwyd i gynnal glendid y ward.

Roedd y trefniadau meddyginiaeth, gan gynnwys rowndiau meddyginiaeth a threfniadau cyffuriau a reolir, yn cael eu rheoli'n dda ar y ward. Roedd y clinig yn ddiogel ac yn cynnwys cyflenwadau da, gan leihau'r angen am geisiadau meddyginiaeth y tu allan i oriau. Roedd gwiriadau tymheredd yr oergelloedd wedi'u cwblhau, ac roedd meddyginiaethau cadwyn oer yn cael eu storio'n briodol.

Gwelsom un o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a oedd yn dangos deialog proffesiynol a pharchus rhwng aelodau'r tîm, gan ganolbwyntio ar y cleifion. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth drwyadl o'r cleifion ac roedd eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio i ryddhau cleifion o adeg eu derbyn.

O ran cleifion ag anghenion meddygol brys neu anghenion meddygol a oedd yn gwaethygu, roedd gofal a thriniaeth yn cael blaenoriaeth briodol. Gwnaethom edrych ar gofnod claf a oedd wedi cael gofal diwedd oes. Roedd y claf hwn wedi

cael mewnbwn amserol, gan gynnwys i reoli ei symptomau. Roedd asesiad poen cyfredol ar waith a chynllun gofal a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Roedd asesiadau cwympiadau, briwiau pwyso a niwed i feinweoedd y croen, dulliau atal a gofal yn cael eu rheoli'n dda ar y ward ar y cyfan. Er nad oedd pob asesiad yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen a argymhellwyd adeg derbyn y claf, roedd anghenion pob claf yn cael eu diwallu drwy brosesau cynllunio gofal, mynediad i ystod o gyfarpar ac adolygiadau rheolaidd.

Roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu'n dda. Gwelsom fwyd a diod yn cael eu gosod o fewn cyrraedd y cleifion, gyda chymorth yn cael ei roi i fwyta pan fo'n ofynnol, a hynny heb ruthro. Roedd y bwyd ei hun yn edrych yn flasus ac yn cael ei baratoi'n ffres ar y safle. Roedd asesiadau maeth yn cael eu cwblhau, a lle bo angen, roedd atgyfeiriadau therapi lleferydd ac iaith yn cael eu gwneud i gefnogi cleifion ag anghenion ychwanegol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid adolygu diogelwch y ward yn unol â'r adborth a ddarparwyd
- Rhaid cwblhau asesiadau cwympiadau a briwiau pwyso o fewn yr amserlenni priodol

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd ymdrechion nodedig wedi'u gwneud mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau, rheoli a rhaeadru'r gwersi i'w dysgu
- Roedd cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu rhedeg yn effeithiol ac mewn ffordd gydlynol gyda phwyslais da ar gynllunio i ryddhau cleifion
- Roedd gofal nyrsio o safon dda yn cael ei ddarparu ar y cyfan.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolwyr y ward yn drefnus, yn cefnogi tîm y ward, ac yn wybodus am weithdrefnau'r ward a'r bwrdd iechyd. Roedd gan ddau ddirprwy reolwr y ward ddyletswyddau wedi'u dirprwyo'n glir, a oedd, at ei gilydd, yn adlewyrchu gofynion, cymhlethdodau a lleoliad lled ynysig y ward.

Roedd yn ymddangos bod y mecanweithiau llywodraethu a goruchwyllo yn sicrhau bod llif effeithiol o wybodaeth am ansawdd a diogelwch rhwng y ward, yr uwch-reolwyr yn yr isadran gymunedol, a chyfarfodydd ehangach y bwrdd iechyd.

Nodwyd bod y staff i gyd yn gweithio mewn ffordd gydlynol, gyda ffocws ar y cleifion. Cafwyd ymdrechion llwyddiannus yn ystod y misoedd diwethaf i recriwtio i

swyddi nyrsio gwag, ac o ganlyniad, prin iawn oedd y swyddi gwag agored ar y ward ac roedd y gweithlu yn sefydlog.

Roedd mewnbwn nyrsio arbenigol ar y ward yn cynnwys nyrs gyswllt iechyd meddwl, a oedd yn helpu i gynllunio achosion cymhleth o ryddhau cleifion, yn helpu â meddyginiaethau ac ymddygiadau heriol ac yn ymgysylltu â theuluoedd. Mae hwn yn adnodd gwerthfawr i'r garfan hon o gleifion a'r ward.

Oherwydd y diffyg ymatebion i'r arolwg staff, mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd eraill o ymgysylltu â staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid gwneud ymdrechion parhaus i leihau achosion o ddyblygu dogfennau nyrsio / cofnodion cleifion

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rheolwyr y ward yn drefnus, yn cefnogi tîm y ward, ac yn wybodus am weithdrefnau'r ward a'r bwrdd iechyd.
- Roedd y staff yn gweithio mewn ffordd gydlynol, gyda ffocws ar gleifion.
- Mae mewnbwn nyrsio arbenigol yn adnodd gwerthfawr i gleifion ac i'r ward
- Roedd y gweithlu yn sefydlog, gyda nifer bach iawn o swyddi gwag

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol mewn ystod o feysydd. Roedd sampl gynrychioliadol o sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Mae fel gwesty 5 seren yma"

" Mae angen mwy o ffisiotherapi!"

"Rwy'n aml yn gorfod aros gryn amser am help"

"Rwy'n cael fy nhrin yn dda iawn. Mae'r staff yn hyfryd ac yn garedig iawn"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth fach o daflenni gwybodaeth ar gael i gleifion a pherthnasau eu cadw. Fodd bynnag, gallai fod cyfleoedd i'r ward ddatblygu hyn ymhellach er mwyn sicrhau bod mwy o wybodaeth wedi'i hargraffu ar gael, o ystyried efallai nad oes gan rai cleifion a pherthnasau fynediad at adnoddau digidol.

Roedd ardal awyr agored bleserus a oedd o dan orchudd ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar gael i'r cleifion ei defnyddio yn ystod y misoedd cynhesach. Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu â'r gymuned leol drwy grŵp Cynghrair y Cyfeillion yr ysbyty, sydd wedi cefnogi datblygiadau sylweddol i'r ward a'r ysbyty ehangach, gan wella'r profiad i gleifion a pherthnasau yn ystod y broses dderbyn.

Dywedodd y staff wrthym fod rhai gwasanaethau cymunedol, fel trin gwallt, wedi cael eu colli yn ystod y blynyddoedd diwethaf , er gwaethaf ymdrechion i'w hadfer. Caiff y ward ei hannog i wneud ymdrechion o'r newydd yn y gymuned leol i gyfrannu ymhellach at lesiant cleifion.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion, gyda gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn briodol ac a oedd yn diwallu anghenion cleifion unigol.

Roedd y cleifion i'w gweld yn drwsiadus, wedi gwisgo ac yn eistedd allan o'r gwely, lle roeddent yn gallu gwneud hynny. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y staff yn rhoi pwyslais mawr ar gynnal ymddangosiad y cleifion, er enghraifft drwy eu helpu i frwsio'u gwallt. Yn ystod un enghraifft a nodwyd gennym, gwnaeth y staff ymdrech sylweddol i helpu claf i gynnal ymdeimlad o urddas personol yn dilyn cyfres o heriau bywyd cyn ei dderbyn i'r ysbyty.

Roedd amgylchedd y ward yn olau, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn cynnig lleoliad cyfforddus i gleifion arhosiad hwy dderbyn gofal ynddo. Yn arbennig, roedd yr ystafell gofal lliniarol yn cynnig preifatrwydd, mynediad uniongyrchol i ardal awyr agored ac ystafell i berthnasau wrth ymyl yr ystafell i gleifion.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd amrywiaeth o gyfarpar ar gael i'r ward i ddiwallu anghenion gofal ac anghenion personol cleifion. Roedd hyn yn cynnwys cyfarpar therapi galwedigaethol er mwyn helpu cleifion i symud, yn dilyn asesiad, i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth. I'r cleifion a oedd yn gallu cerdded a'r rheini ag anawsterau cofio, roedd arwyddion darluniadol dwyieithog ar y drysau i helpu'r cleifion i ddod o hyd i'w ffordd.

Roedd y staff newydd gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia, ac roedd y ward yn defnyddio'r Cynllun Pili Pala i ddynodi cleifion â dementia ac anawsterau cofio eraill mewn modd cynnil. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y Cynllun Pili Pala bob amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rydym yn argymhell y dylid atgoffa'r staff i ddefnyddio'r cynllun hwn ac o'i fanteision. Er gwaethaf hyn, roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y cleifion ddogfennau 'Amdana i' yn eu cofnodion, sy'n helpu'r staff i ymgysylltu â chleifion mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn gyson.

Roedd mewnbwn therapiwtig ar gael i'r cleifion gan dîm a oedd wedi'i leoli ar safle'r ysbyty. Er gwaetha'r ymdrechion parhaus i sicrhau bod y cleifion yn cael lefel ystyrlon o fewnbwn therapiwtig, roedd heriau a oedd yn gysylltiedig â'r gweithlu yn atal yr ymdrechion hyn. Roedd hyn hefyd wedi arwain at lai o weithgareddau wedi'u hamserlennu ar y ward.

Oherwydd natur y ward, nifer y gwelyau, y defnydd ohonynt a'r angen i gefnogi llif cleifion, mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ac ystyried trefniadau'r gweithlu o fewn y tîm therapiau adsefydlu er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu'n ddigonol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'r gweithlu o fewn y tîm therapïau adsefydlu yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion eu diwallu'n effeithiol.

Er bod ystafell fwyta ar gael i'r cleifion, ni welsom yr ystafell hon yn cael ei defnyddio'n rheolaidd. Dywedwyd wrthym mai'r bwriad oedd defnyddio'r ystafell hon a'r ardal gyfagos ar gyfer gweithgareddau grŵp cleifion yn y dyfodol agos, a fyddai'n helpu'r cleifion i adsefydlu.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y staff yn ymateb i glychau galw'r cleifion mewn modd amserol ar y cyfan Fodd bynnag, ar achlysuron, dywedodd cleifion wrthym fod clychau galw yn canu am gyfnod estynedig, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn digwydd hefyd. Er gwaethaf hyn, roedd y staff yn gweithio'n galed o fewn y capasiti a oedd ar gael iddynt i ddiwallu anghenion cleifion, pan ofynnwyd iddynt wneud hynny.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i ymateb i glychau galw ar adegau prysur.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gan y cleifion anghenion cyfathrebu amrywiol. O ran cleifion ag amhariadau gwybyddol, roedd y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu mewn modd priodol. Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r cleifion ar y ward siarad Saesneg; fodd bynnag, dywedodd y rhai yr oedd yn well ganddynt siarad Cymraeg fod y staff yn gwneud ymdrech i sgwrsio â nhw yn Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl.

Mynegodd y cleifion lefel uchel o foddhad â'r ward. Fodd bynnag, un thema a oedd yn ailadrodd yn yr adborth gan gleifion oedd awydd i gael rhagor o wybodaeth am eu taith gofal a'r dyddiad y rhagwelwyd y byddent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd neu'n cael sicrwydd yn rheolaidd mewn perthynas â'u taith gofal ac unrhyw gynlluniau i'w rhyddhau o'r ysbyty. Gallai fod yn ddefnyddiol darparu deunydd ysgrifenedig neu lyfryn gwybodaeth adeg derbyn i'r grŵp cleifion hwn.

Hawliau a Chydraddoldeb

O ran cleifion sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, gwnaethom nodi rhai heriau wrth gael awdurdodiadau amserol gan yr awdurdod lleol. Roeddem

o'r farn bod staff y ward wedi dilyn prosesau priodol ar gyfer mynd ar drywydd ceisiadau; fodd bynnag, mae risg y gallai oedi arwain at amddifadu cleifion o'u rhyddid heb amddiffyniad cyfreithiol a heb gyfle i herio wrth aros i benderfyniad gael ei wneud.

Rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod amseroedd asesu ac awdurdodi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu monitro, ac adolygu a oes angen eu cynnwys ar gofrestrau risgiau perthnasol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr amgylchedd i'w weld yn addas at y diben ar y cyfan, gydag ystafelloedd a baeau i gleifion wedi'u trefnu a'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd rheolwyr y ward wedi gwneud ymdrechion nodedig i leihau nifer y digwyddiadau Datix agored. Roedd prosesau addas ar waith i sicrhau y rhoddir gwybod am ddigwyddiadau, yr ymatebir iddynt ac, yn bwysig, y caiff y gwersi i'w dysgu eu rhaeadru i'r staff mewn modd amserol ac effeithiol.

Roedd y brif fynedfa i'r ward yn ddiogel ac roedd system gloch i reoli mynediad. Gwnaethom nodi rhai meysydd y dylai'r bwrdd iechyd fyfyrion arnynt mewn perthynas â diogelwch y ward ar raddfa ehangach. Oherwydd natur yr adborth hwn, ni chaiff ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond cafodd ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd yn fanylach yn y cyfarfod adborth ar ôl yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff diogelwch y ward ei adolygu yn unol â'r adborth a ddarparwyd.

Roedd anghenion cleifion yn cael ystyriaeth briodol wrth benderfynu sut y dylid lletya cleifion ar y ward, gan gynnwys defnyddio ystafelloedd ochr, baeau neu eu gosod yn agos at orsaf y nyrsys.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y ward yn lân yr olwg ac yn drefnus. Nodwyd bod y trefniadau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan, gyda'r staff domestig yn gweithio'n ddiwyd i gynnal glendid y ward.

Roedd archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac yn sgorio'n dda. Roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan archwiliad atal a rheoli heintiau corfforaethol, a oedd wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar ac a oedd hefyd wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol.

Roedd cyfarpar meddygol a chyfarpar cymorth aml dro i'w weld yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried defnyddio labeli "*I am clean*" neu ryw beth tebyg, er mwyn ei gwneud hi'n glir i'r staff fod cyfarpar wedi'i ddiheintio ac i atal achosion o dybio ei fod yn barod i'w ddefnyddio.

Gwnaethom gynghori'r ward ar adeg yr arolygiad y dylid symud y bagiau golch coch o gawodydd y cleifion.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd prosesau addas ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydledig y bwrdd iechyd, yn ogystal â rhoi gwybod am ddigwyddiadau'n gyson, a oedd yn dangos diwylliant adrodd tryloyw. Yn ogystal, roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol sy'n briodol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Ar gyfer cleifion sy'n cael gofal uwch, roedd bwndeli nyrsio yn cael eu cwblhau i safon dda, ac roedd y staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau wrth ddarparu gofal un i un.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar clinigol yn cael ei defnyddio ar y ward i ddiwallu anghenion gofal y cleifion. Roedd y cyfarpar i'w weld mewn cyflwr da, ac roedd y ward yn monitro'r dyddiadau ar gyfer gwasanaethu cyfarpar. Fodd bynnag, roedd y dyddiad ar gyfer gwasanaethu a chalibradu rhai eitemau o gyfarpar ar y ward wedi mynd heibio. Cawsom wybod bod hyn oherwydd bod contract ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan yn cael ei ddyfarnu i gontractwr newydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar yn cael ei wasanaethu mewn modd amserol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda ar y ward. Roedd y clinig yn ddiogel ac yn cynnwys cyflenwadau da, gan leihau'r angen am geisiadau meddyginiaeth y tu allan i oriau. Roedd gwiriadau tymheredd yr oergelloedd wedi'u cwblhau, ac roedd meddyginiaethau cadwyn oer yn cael eu storio'n briodol.

Gwelsom nyrs staff yn cynnal rownd meddyginiaeth yn ddiwyd. Roedd tabardau coch yn cael eu defnyddio i nodi staff a oedd yn cwblhau'r rownd meddyginiaeth, gan sicrhau nad oedd neb yn tarfu arnynt.

Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu rheoli'n dda, ac ni nodwyd unrhyw hepgoriadau o ran storio, rhoi neu gofnodi'r meddyginiaethau hyn. Roedd y siartiau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n dda ar y cyfan, gyda defnydd cyson o godau rheswm pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei gwrthod neu pan na fyddai'n cael ei rhoi.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi mewnbwn rheolaidd a chyson gan fferyllydd ar y ward, gydag ymweliadau deirgwaith yr wythnos.

Roedd offer a throli brys ar gael yn hawdd i'r ward eu defnyddio. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi o'r cyfarpar hwn, gan gynnwys gwiriadau o'r cynnwys a'r dyddiadau darhod.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Roedd asesiadau o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd y croen a'r gofal cysylltiedig yn cael eu rheoli'n dda ar y ward ar y cyfan. Roedd pob un o'r cleifion ond un a adolygwyd gennym wedi cael asesiad o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd y croen adeg eu derbyn, a hynny o fewn y terfynau amser a argymhellir. Yn gadarnhaol, roedd gan bob claf gynllun gofal priodol ar waith, ac roedd y staff yn dogfennu gofal briwiau pwyso yn gyson ar gyfnodau priodol.

Roedd ystod o gyfarpar ar gael i'r ward er mwyn cefnogi a lleihau'r risg o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd i gleifion yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg. Gwelwyd bod y cyfarpar hwn yn cael ei ddefnyddio, a hynny mewn modd priodol. Lle y bo'n ofynnol, roedd atgyfeiriadau amserol wedi cael eu gwneud at y tîm nyrsio hyfywedd meinwe.

Atal cwympiadau

Roedd y broses o asesu ac atal cwympiadau yn cael ei rheoli'n dda ar y ward ar y cyfan. Er nad oedd dau o'r cleifion y gwnaethom eu hadolygu wedi cael asesiad risg o gwmpo adeg eu derbyn o fewn yr amserlen a argymhellir, cawsant eu cwblhau o fewn 24 awr. Lle y bo'n berthnasol, cafodd cleifion eu hailasesu, ac roedd ystod o gyfarpar ar gael i helpu cleifion i symud yn ddiogel ar y ward.

Roedd yn gadarnhaol nodi mewnbwn yr adran ffisiotherapi ar y ward, gan ddarparu asesiadau symudedd, cymorth a gwaith cynllunio gofal. Fodd bynnag, soniodd y cleifion a'r staff y dylid cynyddu amllder y mewnbwn hwn er mwyn darparu gwasanaeth adsefydlu mwy cadarn i'r cleifion. Gwnaed argymhelliad uchod yn hyn o beth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o friwiau pwyso ac asesiadau cwympiadau eu cwblhau o fewn yr amserlenni priodol adeg derbyn cleifion.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom un o gyfarfodydd y tîm amlldisgyblaethol a oedd yn dangos deialog proffesiynol a pharchus rhwng aelodau'r tîm, gan ganolbwyntio ar y cleifion. Roedd y staff yn dangos dealltwriaeth drwyadl o'r cleifion ac roedd eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus. Roedd yn gadarnhaol gweld y staff nyrsio iau yn cael eu

hannog a'u grymuso gan reolwyr y ward i fynychu'r cyfarfodydd hyn ac i wneud cyflwyniadau.

Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio i ryddhau cleifion o'r adeg derbyn, gan helpu i gefnogi'r cleifion i ddychwelyd adref a, chyn belled ag y bo'n bosibl, leihau achosion o waethygu eu cyflwr corfforol a'u cyflwr meddyliol o ganlyniad i fod yn yr ysbyty. Er i ni nodi rhai achosion o oedi wrth ryddhau cleifion, a hynny fel arfer oherwydd pwysau cenedlaethol o ran llif cleifion, roedd llif cleifion ar y ward yn dda ar y cyfan.

O ran cleifion ag anghenion meddygol brys neu anghenion meddygol a oedd yn gwaethygu, roedd gofal a thriniaeth yn cael blaenoriaeth briodol. Gwnaethom adolygu claf â Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol uchel, a gwelsom fod y ward wedi cymryd camau priodol i uwchgyfeirio gofal ar yr adegau angenrheidiol.

Gwnaethom edrych ar gofnod claf a oedd wedi cael gofal diwedd oes. Roedd y claf hwn wedi cael mewnbwn amserol, gan gynnwys i reoli ei symptomau. Roedd asesiad poen cyfredol ar waith a chynllun gofal a oedd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom ein hysbysu am sawl achos lle roedd trefniadau i drosglwyddo cleifion nad oeddent yn achosion brys drwy Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi cael eu canslo, weithiau heb fawr rybudd, os o gwbl. Mae hyn yn cael effaith ar anghenion gofal rheolaidd y cleifion, yn ogystal â gallu'r ward i ryddhau cleifion mewn ffordd amserol, ddiogel ac effeithiol. Er i ni gael sicrwydd fod y bwrdd iechyd yn uwchgyfeirio'r pryderon hyn drwy gyfarfodydd partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, byddwn yn eu nodi a, lle y bo'n briodol, yn uwchgyfeirio'r pryderon hyn y tu allan i'r adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu'n dda. Gwelsom fwyd a diod yn cael eu gosod o fewn cyrraedd y cleifion, gyda chymorth yn cael ei roi i fwyta pan fo'n ofynnol, a hynny heb ruthro.

Roedd y bwyd yn flasus, yn cael ei weini ar dymheredd priodol, ac yn cael ei baratoi'n ffres gan dîm y gegin ar y safle wrth ymyl y ward.

Roedd asesiadau maeth yn cael eu cwblhau, a lle bo angen, roedd atgyfeiriadau therapi lleferydd ac iaith yn cael eu gwneud i gefnogi cleifion ag anghenion ychwanegol. Roedd gofynion deietegol yn cael eu bodloni'n dda fel arall ac yn cael eu nodi'n glir yng nghofnodion y cleifion.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod yn adlewyrchu safon dda o ofal cleifion wedi'i deilwra at yr unigolyn. Roedd yr holl gofnodion yn cynnwys asesiadau perthnasol, gyda chymau gweithredu dilynol a chynlluniau gofal priodol ar waith.

Roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau ar y pryd ac i safon broffesiynol briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd rheolwyr y ward yn drefnus, yn cefnogi tîm y ward, ac yn wybodus am weithdrefnau'r ward a'r bwrdd iechyd. Roedd gan ddau ddirprwy reolwr y ward ddyletswyddau wedi'u dirprwyo'n glir, a oedd, at ei gilydd, yn adlewyrchu gofynion, cymhlethdodau a lleoliad lled ynysig y ward. Er gwaethaf hyn, swydd dros dro oedd swydd un o ddirprwy reolwyr y ward, rhywbeth y dylai'r bwrdd iechyd fod yn ystyriol ohono wrth ystyried y gofynion o ran ei weithlu rheoli.

Roedd yn ymddangos bod y mecanweithiau llywodraethu a goruchwyllo yn sicrhau bod llif effeithiol o wybodaeth am ansawdd a diogelwch rhwng y ward, yr uwch-reolwyr yn yr isadran gymunedol, a chyfarfodydd ehangach y bwrdd iechyd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Nodwyd bod y staff i gyd yn gweithio mewn ffordd gydlynol, gyda ffocws ar y cleifion. Cafwyd ymdrechion llwyddiannus yn ystod y misoedd diwethaf i recriwtio i swyddi nyrsio gwag, ac o ganlyniad, prin iawn oedd y swyddi gwag agored ar y ward ac roedd y gweithlu yn sefydlog.

Roedd mewnbwn nyrsio arbenigol ar y ward yn cynnwys nyrs gyswllt iechyd meddwl, a oedd yn helpu i gynllunio achosion cymhleth o ryddhau cleifion, yn helpu â meddyginiaethau ac ymddygiadau heriol ac yn ymgysylltu â theuluoedd. Mae hwn yn adnodd gwerthfawr i'r garfan hon o gleifion a'r ward.

Roedd y cyfraddau ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol yn gadarnhaol, gyda rhai bylchau anochel ar gyfer aelodau o staff a oedd newydd ymuno. Roedd cynlluniau clir ar waith ar gyfer yr aelodau hyn o staff er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant mewn modd amserol. Yn gadarnhaol, gwelwyd bod y ward yn ymateb i anghenion hyfforddiant y staff ar sail adborth, gan ddysgu o ddigwyddiadau ac arfarniadau.

Roedd arfarniadau staff yn cael eu cwblhau'n dda, gyda rheolwyr yn cael eu dyrannu a'u hamserlennu i'w cynnal gyda'r staff. Roedd anghenion hyfforddi a datblygu yn cael eu diwallu cyn belled ag y bo'n bosibl.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom lefel uchel o adborth cadarnhaol a chanmoliaeth gan gleifion a pherthnasau o ran y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y staff.

Roedd gwybodaeth am broses Gweithio i Wella GIG Cymru yn cael ei harddangos ar y ward i gleifion neu berthnasau gyflwyno pryderon ffurfiol. Roedd nifer y pryderon yn isel ar y cyfan ac roeddent yn cael ymateb o fewn amserlen briodol, gyda chymorth a goruchwyliaeth corfforaethol gan y bwrdd iechyd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried sut gallai gwybodaeth am y broses hon a dulliau anffurfiol eraill ar gyfer rhoi adborth a chyfleu pryderon gael eu cyfathrebu'n well i'r grŵp cleifion hwn. Fel yr argymhellwyd yn flaenorol, gallai fod yn ddefnyddiol i'r boblogaeth hon gael deunydd ysgrifenedig neu lyfryn gwybodaeth adeg derbyn.

O ran cleifion nad oeddent yn gallu eirioli drostynt eu hunain, cadarnhaodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod sut i godi unrhyw gwestiynau neu bryderon, a gwelsom y staff yn ateb cwestiynau perthnasau mewn ffordd briodol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddyblygu rhwng y nodiadau electronig a'r nodiadau wrth ymyl y gwely. Cawsom wybod fod hyn oherwydd bod system electronig wedi cael ei rhoi ar waith yn ddiweddar, ac y byddai'n cael ei unioni yn y dyfodol agos.

Dylai'r bwrdd iechyd anelu at leihau achosion o ddyblygu dogfennaeth nyrsys / cofnodion cleifion cyn belled ag y bo'n bosibl.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd sawl archwiliad nyrsio ac amgylcheddol yn cael eu cynnal, a oedd yn gyson â dull corfforaethol safonol y bwrdd iechyd. Roedd yr archwiliadau hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, ac roedd camau yn cael eu cymryd mewn ymateb i unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd.

Gwnaethom hefyd nodi tystiolaeth o gyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwr y ward a'r meddyg teulu a oedd yn gyfrifol am gleifion ar y ward er mwyn nodi a rheoli unrhyw bryderon.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y ward wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol â'r practis meddyg teulu sy'n gyfrifol am ddarparu gofal meddygol i gleifion, gyda rheolwyr y ward yn canmol cadernid y gofal a'r mewnbwn a ddarperir.

Roedd cysylltiadau sefydledig â chynghrair y cyfeillion lleol, a oedd wedi cyfrannu'n helaeth at y ward a'r ysbyty ehangach er mwyn gwella profiad cleifion a pherthnasau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ddim yn gymwys			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ddim yn gymwys					
2.					
3.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Maldwyn, Ysbyty Coffa Victoria

Dyddiad yr arolygiad: 5-6 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Risg i ofal wedi'i deilwra at yr unigolyn	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn gyson.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal	- Sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn ymwybodol o'r Cynllun Pili Pala - Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dementia - o fis Medi 2025, roedd 74% o staff wardiau ar draws Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cwblhau'r hyfforddiant.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus Mawrth 2026

				Anelu at gyflawni cydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Mawrth 2026 Rhoddir gwybod am gynnydd drwy gyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y Grŵp Gwasanaethau Cymunedol a chyfarfodydd llywodraethu'r ward.	Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus
2.	Risg i ofal wedi'i deilwra at yr unigolyn / gofal diogel	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trefniadau'r gweithlu o fewn y tîm therapiâu adsefydlu eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion eu diwallu'n effeithiol.		- Adolygu'r mewnbwn therapi ar y ward er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu mewn modd amserol. - Sicrhau bod pob claf y mae angen therapi dwys arno yn cael ei	Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Rheolwyr y Ward	Parhaus Parhaus

				ryddhau'n briodol gan ystyried yr angen - i Ward Bryn Heulog. Sicrhau y caiff unrhyw achosion lle na all cleifion gael y lefelau mewnbyn therapiwtig sy'n ofynnol eu nodi drwy broses hysbysu Datix er mwyn gallu eu monitro a'u huwchgyfeirio i Reolwr y Gwasanaeth Clinigol mewn modd priodol. • Bydd achosion o ryddhau cleifion y mae angen adsefydlu dwys arnynt i wardiau amhriodol yn cael eu monitro drwy RTGH/Grŵp Gwella Ansawdd	Rheolwyr y Ward / Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus
--	--	--	--	---	--	----------------

				Wardiau Adsefydlu BIAP a bydd adroddiadau'n cael eu hanfon ymlaen drwy fforwm Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y GGC.		
3.	Risg i ofal amserol	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i ymateb i glychau galw ar adegau prysur.		- Nodyn atgoffa i bob aelod o'r staff am y gofyniad i ymateb i glychau galw cleifion mewn modd amserol, hyd yn oed yn ystod cyfnodau prysur. - Adolygiad o themâu a thueddiadau profiad y claf i nodi a yw hyn yn digwydd yn rheolaidd. Cyflwynir adroddiad drwy'r fforwm Ansawdd,	Rheolwyr y ward Rheolwyr y ward/ Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/ Arweinydd profiad y bobl	Wedi'i gwblhau Mawrth 2026

				Diogelwch a Phrofiad y Claf. - Ymwybyddiaeth o themâu profiad y claf a sicrhau y caiff tueddiadau eu hystyried fel rhan o'r broses driongli wrth adolygu'r cyflenwad staff. Cyflwynir adroddiad drwy Grŵp Llywio Profiad y Claf. - Caiff prosiect Gwella Ansawdd ei gyflawni gan dîm rheoli'r ward, dan oruchwyliaeth y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol. Y cam cyntaf fydd cynnal archwiliad arsylwadol o'r ymateb i glychau	Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/ Pennaeth Nyrsio Proffesiynol Rheolwr y Ward/ Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol	Mawrth 2026 Chwefror 2026
--	--	--	--	---	---	---

				galw yn ystod cyfnodau prysur ar y ward.		
4.	Risg i brofiad y cleifion	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hatgoffa neu y rhoddir sicrwydd iddynt yn rheolaidd mewn perthynas â'u taith gofal ac unrhyw gynlluniau i'w rhyddhau o'r ysbyty. Gallai fod yn ddefnyddiol rhoi deunydd ysgrifenedig neu lyfryn gwybodaeth adeg derbyn i'r boblogaeth hon.		- Y fframwaith llif ysbyty gorau posibl - cyflwynwyd cynllun sicrwydd cyflawni 6 nod i bob ward ar draws BIAP - bydd y staff yn cael hyfforddiant ar ofynion a disgwyliadau'r rhaglen 6 nod. - Cyflwynir adroddiadau ar bresenoldeb mewn hyfforddiant a chynnydd y rhaglen 6 nod drwy gyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y GGC.	Tîm llif / Rheolwyr y ward Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu / Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol	Chwefror 2026 Parhaus

				• Bydd taflenni'r Ymgyrch Gartref Gyntaf i gleifion yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu i bob ward a'u rhoi i gleifion adeg eu derbyn i'r ward. • Bydd deunydd hyrwyddo ymgyrch Gartref Gyntaf i ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol.	Rheolwyr y ward / Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Y Tîm Cyfathrebu	Parhaus Wedi'i gwblhau
5.	Risg i hawliau cleifion a dyletswyddau statudol	Rhaid i'r bwrdd iechyd weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod amseroedd asesu ac awdurdodi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu monitro, ac adolygu a oes angen eu cynnwys ar	Deddf Galluedd Meddyliol 2005	• Parhau i gynnwys amserlenni ar gyfer asesu ceisiadau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gofrestr risgiau tîm Diogelu BIAP.	Uwch-ymarferydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o	Parhaus

		gofrestrau risgiau perthnasol.		- Parhau â'r broses gyfredol o sicrhau y caiff pob cais ei olrhain a'i fonitro - sef proses ar y cyd â Chyngor Sir Powys a BIAP fel y corff goruchwyllo. - Cyflwynir adroddiadau blynyddol ar ddata'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid gan BIAP fel y corff goruchwyllo i AGIC.	Ryddid / Tîm Diogelu BIAP Uwch-ymarferydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid / Tîm Diogelu BIAP Uwch-ymarferydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid / Tîm Diogelu BIAP	Parhaus Parhaus
6.	Risg i ofal diogel	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff diogelwch y		Dechrau defnyddio llyfr ymwelwyr		Wedi'i gwblhau

7.	Risg i ofal diogel	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar yn cael ei wasanaethu mewn modd amserol.		• Adolygiad o'r gofynion ar gyfer yr holl gyfarpar ar y ward a nodi cyfarpar nad yw'n cydymffurfio â'r amserlenni gwasanaethu gofynnol. • Parhau i fonitro cydymffurfiaeth o ran cynnal a chadw a gwasanaethu. • Adolygu unrhyw broblemau mewn perthynas â chontractau gwasanaethu - nodi drwy Datix ac adrodd ymlaen drwy grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y GGC a chyfarfod lechyd a Diogelwch y GGC.	Rheolwr y Ward/ Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Rheolwr y Ward/ Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/ Rheolwr Dyfeisiau Meddygol a phrofion pwyntiau gofal Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol/ Rheolwr Dyfeisiau Meddygol a phrofion pwyntiau gofal	Ar waith, i'w gwblhau erbyn 9 Ionawr 2026 Parhaus Parhaus
----	--------------------	--	--	--	--	--

8.	Risg i ofal diogel	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau o friwiau pwyso ac asesiadau cwympiadau eu cwblhau o fewn yr amserlenni priodol adeg derbyn cleifion.		- Sicrhau cydymffurfiaeth ag asesiadau risg cleifion fel y nodwyd yng Nghofnod Gofal Nyrsio Cymru. - Monitro cydymffurfiaeth ag asesiadau risg cleifion Cofnod Gofal Nyrsio Cymru bob wythnos drwy adroddiadau BI gan roi sicrwydd i'r Pennaeth Nyrsio Proffesiynol a chyflwyno adroddiad drwy grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf y GGC a chyfarfod lechyd a Diogelwch y GGC.	Rheolwyr y Ward / Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol	Parhaus Parhaus

9.	Risg i ofal a gweithlu diogel	Dylai'r bwrdd iechyd anelu at leihau achosion o ddyblygu cofnodion cleifion cyn belled ag y bo'n bosibl.		Symud nodiadau cleifion wrth ochr y gwely sy'n dyblygu Cofnod Gofal Nyrsio Cymru ym mhob un o wardiau BIAP	Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol	Ionawr 2026
----	-------------------------------	--	--	--	---------------------------------	-------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Zoë Woodmass

Enw (priflythrennau): Zoë Woodmass

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

Dyddiad: 2 Ionawr 2026